



Newid Cadarnhaol mewn
Gofal Cymdeithasol
Positive Change
in Social Care



Llywodraeth Cymru
Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth
Welsh Government
National Office for Care and Support


Newid cadarnhaol mewn gofal cymdeithasol

Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

Adroddiad Blynyddol | 2025-26

Cynnwys

- 03 Cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- 04 Rhagair gan Albert
- 05 Trosolwg cryno o'r Swyddfa Genedlaethol
- 06 Cynnydd a chyflawniadau allweddol yn fanylach
 - 06 Arweinyddiaeth, Ymgysylltu a Thrawsnewid Systemau
 - 10 Ansawdd, y Gweithlu a Gwelliant
- 14 Edrych ymlaen



Rhagair y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol



Fel Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2025-2026 y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth. Mae'n myfyrio ar flwyddyn o gynnydd ystyrlon, a ysgogwyd gan ymrwymiad, egni ac ymdrech ar y cyd

cydweithwyr a phartneriaid ledled Cymru. Gyda'n gilydd, rydym wedi adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn ein blwyddyn gyntaf i gryfhau gofal cymdeithasol ac ysgogi gwelliant, gyda ffocws clir ar ganlyniadau gwell i bobl Cymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfathrebu cryfach, fforymau partneriaeth a digwyddiadau cenedlaethol wedi creu mwy o gyfleoedd i wrando, dysgu a deall beth sy'n bwysig i bobl ac i gyflawni blaenoriaethau. Rydym wedi cwblhau'r holl weithgarwch a nodwyd yng Ngham 1 o'r Cynllun Gweithredu Cychwynnol, gan nodi carreg filltir bwysig i'r Swyddfa Genedlaethol ac i'r uchelgais ehangach o sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.

Datblygwyd y cynllun mewn ymateb i argymhellion y Grŵp Arbenigol ac mae'n nodi Cam 1 o raglen tri cham a fydd yn para 10 mlynedd i greu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, ac a ddarperir fel gwasanaeth cyhoeddus craidd.

Wrth inni symud yn ein blaen i 2026-27, rwyf yn parhau i ganolbwyntio ar godi proffil a llais gofal cymdeithasol, cryfhau ymarfer drwy safonau cenedlaethol ac arloesedd, cefnogi'r gweithlu a symud ymhellach tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i gryfhau trefniadau diogelu ledled Cymru a sicrhau bod diogelwch, hawliau a llesiant pobl yn parhau i fod wrth wraidd ein dull gweithredu.

Rydym yn parhau i glywed yn glir bod pobl am gael gwasanaeth mwy di-dor, gyda'r sectorau ieuchyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio i ddiwallu eu hanghenion. Ar yr un pryd, rhaid inni fod yn onest ynglŷn â maint yr her sydd o'n blaenau, gan gynnwys sut rydym yn cyflawni'r uchelgais hon mewn ffordd sy'n gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn gallu ymateb i'r pwysau demograffig sydd eisoes yn llywio'r galw am ofal a chymorth.

Mae mwy i'w wneud o hyd, ond mae'r flwyddyn hon wedi dangos beth y gellir ei gyflawni pan fydd ymdrechion i gydweithio, cyfrifoldeb a rennir a ffocws clir ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu yn mynd law yn llaw â'n huchelgais.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn dros y flwyddyn ddiwethaf, a chydabod ymroddiad y gweithlu gofal cymdeithasol a phawb sy'n gweithio ar draws y sector bob dydd i gefnogi pobl, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru. Mae eich ymrwymiad, eich tosturi a'ch arbenigedd yn parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Gobeithiaf y bydd yr adroddiad hwn yn eich atgoffa o'r cynnydd rydym eisoes wedi'i wneud a'r cyfrifoldeb a rennir sydd gennym wrth inni barhau i adeiladu system gofal cymdeithasol gryfach, decach a mwy cynaliadwy i Gymru.

Albert Heaney CBE

Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru

Trosolwg cryno o'r Swyddfa Genedlaethol

Arweinir y Swyddfa Genedlaethol gan Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae'n chwarae rhan ganolog wrth hyrwyddo uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i gael gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy, o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r uchelgais i greu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.

Gan ddod â swyddogaethau ymgysylltu, gwella a chyflawni ynghyd, mae'n darparu'r arweinyddiaeth, y cydgysylltiad a'r cymorth ymarferol sydd eu hangen i wella canlyniadau, hyrwyddo ymarfer mwy cyson a sicrhau bod profiad plant, oedolion a gofalwyr wrth wraidd gofal a chymorth yng Nghymru.

Adlewyrchir y cylch gwaith eang hwn yn strwythur y Swyddfa Genedlaethol, sy'n dwyn ynghyd sawl cangen sy'n gyfrifol am gyflawni blaenoriaethau a phrosiectau ar draws ei rhaglen waith.

Y rhain yw:

- Dadansoddi ac Arloesi.
- Comisiynu a Goruchwyllo'r Farchnad.
- Rhaglen y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.
- Llwybrau Gofal a Chanllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty.
- Talu am Ofal a Chyllid yn y Dyfodol.
- Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid.
- Diogelu, Eiriolaeth a Chwynion.
- Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Phartneriaeth.

Mae'r adran ganlynol yn nodi sut mae'r gwaith hwn wedi arwain at gyflawniad dros y flwyddyn ddiwethaf, gan dynnu sylw at gyflawniadau allweddol ar draws blaenoriaethau craidd y Swyddfa Genedlaethol.



Cynnydd a chyflawniadau allweddol yn fanylach

Arweinyddiaeth, Ymgysylltu a Thrawsnewid Systemau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cryfhau arweinyddiaeth genedlaethol, ymgysylltiad a chamau i drawsnewid systemau ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru. Drwy ddatblygu polisiau, trefniadau llywodraethu, ymchwil a chyfathrebu strategol, rydym wedi cefnogi cynnydd tuag at ofal cymdeithasol tecach, mwy cyson a chynaliadwy, gan godi proffil a llais gofal cymdeithasol yn genedlaethol ar yr un pryd.

Un ffocws allweddol eleni fu parhau i gyflawni Cam 1 o'r Cynllun Gweithredu Cychwynnol i symud tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023. Roedd Cam 1, a oedd yn cwmpasu 2022 i 2025, yn canolbwyntio ar osod y sylfeini ar gyfer trawsnewid hirdymor, ac mae'r holl weithgarwch yr ymrwymwyd iddo yn ystod y cyfnod hwn bellach wedi'i gwblhau. Mae hyn yn nodi cynnydd pwysig tuag at osod y sylfeini cywir ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru yn y dyfodol.

Bu trefniadau llywodraethu cryf yn ganolog i'r cynnydd hwn. Mae'r Grŵp Cyngori Strategol wedi parhau i ddarparu cyngor, her a sicrwydd ar draws rhaglen waith y Swyddfa Genedlaethol, trawsnewidiad ehangach gofal cymdeithasol a chyflawniad o dan Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae aelodau'r Grŵp Cyngori Strategol (2025-26) yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan	Fforwm Gwaith Teg	Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC)	Undeb y GMB	Cyngres yr Undebau Llafur
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW)	Improving Adult Care Together (IMPACT)	Unsain
Fforwm Gofal Cymru	Llais Cymru	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)	Tîm Arweinyddiaeth Uwch Gweithredol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol	Swyddogion Llywodraeth Cymru
Y Ganolfan Ymchwil i Ofal Cymdeithasol Oedolion (CARE)	Fforwm Darparwyr Cenedlaethol	Confederasiwn GIG Cymru
Y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE)	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	Y Coleg Nyrsio Brenhinol

Drwy ddod ag uwch-arweinwyr a lleisiau allanol ynghyd, mae'r grŵp wedi helpu i brofi blaenoriaethau, cryfhau prosesau gwneud penderfyniadau a chefnogi cydlyniant agosach rhwng polisi a chyflawniad.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg

Adlewyrchir y gwaith partneriaeth hwn yn y ffordd y caiff Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ei gyflawni gan y Gweithgor Gofal Cymdeithasol, sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, partneriaid cyflawni a rhanddeiliaid i oruchwylio cynnydd, rhannu gwersi a ddysgwyd a chefnogi'r broses weithredu. Mae'r cynllun yn helpu i wella tegwch, tryloywder a chysondeb ar draws gofal cymdeithasol, gyda ffocws penodol ar fynd i'r afael â hiliaeth mewn polisi, ymarfer y gweithlu a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Gwnaed cynnydd hefyd o ran ymgorffori egwyddorion gwrth-hiliol mewn gweithdrefnau comisiynu, a gefnogir gan y pecyn cymorth comisiynu digidol sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth.

Wedi'i hariannu a'i chefnogi gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth, cryfhodd rôl Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol (Hil) BASW Cymru ymarfer gwrth-hiliol ledled Cymru yn ystod 2025–26, gan gynnal cefnogaeth i weithwyr cymdeithasol Du ac Asiaidd, dylanwadu ar addysg a datblygiad y gweithlu, a chyfrannu at newid polisi drwy ddatblygu'r papur gofal cymdeithasol i oedolion, Lives in Limbo.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yng nghynhadledd Mwy na Geiriau – More than Words yn Llandrindod ym mis Hydref 2025.

Ffocws y digwyddiad oedd Gofalu yn y Gymraeg. Tynnodd y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol sylw at brosiect partneriaeth mewn cydweithrediad â'r sector gofal cymdeithasol a oedd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran galluogi mwy o bobl i gael gofal yn yr iaith o'u dewis. Roedd hyn yn cynnwys cryfhau sgiliau Cymraeg y gweithlu cyfan a chyflwyno rhaglen beilot a gyflawnodd gynnydd o 82% yng ngallu Cymraeg staff.



Talu am Ofal

Gwnaed gwelliannau ymarferol i fframwaith talu am ofal Cymru hefyd. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom adolygu a diweddarau'r Rheoliadau Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol, sy'n gosod y fframwaith statudol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ddilyn wrth ddatblygu polisiâu gosod ffioedd lleol ar gyfer gofal a chymorth a'u rhoi ar waith. Cefnogir y Rheoliadau hyn gan y Cod Ymarfer a ragnodir yn genedlaethol ar Godi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol, sy'n darparu canllawiau manwl ar y gofynion cyfreithiol ar gyfer codi ffioedd, asesiadau ariannol, taliadau uniongyrchol, codi ffioedd mewn cartrefi gofal a threfniadau taliadau gohiriedig. Gyda'i gilydd, maent yn helpu i sicrhau bod trefniadau codi ffioedd yn deg, yn dryloyw, yn gyson ac yn seiliedig ar allu person i dalu.

Fel rhan o'r newidiadau hyn, cynyddodd yr Isafswm Incwm ar gyfer pobl mewn gofal preswyl o £44.65 i £46.35 yr wythnos o fis Ebrill 2026, gan helpu i sicrhau bod preswylwyr cartrefi gofal yn cadw mwy o'u hincwm ar gyfer gwariant personol. Gwnaethom hefyd ddatblygu gwaith i asesu sut y gellid cymhwyso egwyddorion cenedlaethol ar gyfer codi ffioedd ac asesiadau ariannol yn fwy cyson ledled Cymru, gyda'r nod o gefnogi canlyniadau tecach a mwy cyfartal i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.

I gefnogi'r gwaith hwn, gwnaethom ailsefydlu'r Fforwm Talu am Ofal, gan ddod â chynrychiolwyr o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghyd.

Mae'r fforwm yn cynnig lle cydweithredol i drafod a deall yn well sut mae polisiâu codi ffioedd ac asesiadau ariannol yn gweithredu'n ymarferol, gan gydnabod meysydd lle ceir amrywiadau lleol dilys wrth geisio cysoni'r ffordd y caiff y polisi a osodwyd yn genedlaethol ei gymhwyso.

Mae'r gwaith hwn wedi gwella dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddulliau lleol ac wedi cefnogi datblygiad pellach mewn dau faes allweddol:

- **Mapio amrywiadau dilys ym mholisiau codi ffioedd awdurdodau lleol er mwyn deall yn well sut y gellir cyflawni canlyniadau teg ni waeth ble mae person yn byw.**
- **Adolygu'r dirwedd ddeddfwriaethol a pholisi, gan gynnwys goblygiadau diwygiadau ehangach fel newidiadau lles Llywodraeth y DU.**

Drwy'r gwaith hwn, rydym yn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi gwelliannau yn y dyfodol i'r system talu am ofal ac yn helpu awdurdodau lleol i ddefnyddio trefniadau codi ffioedd sy'n deg, yn gynaliadwy ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi parhau i archwilio goblygiadau ariannol a gweithredol darparu gofal am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, gan gynnwys yr effaith bosibl ar unigolion, awdurdodau lleol a'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Mae hyn wedi cynnwys gwaith i ddeall galw yn y dyfodol yn well, ystyriaethau o ran gweithredu a lefel y buddsoddiad a all fod yn ofynnol i gefnogi model ariannu hirdymor cynaliadwy. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i lywio dewisiadau polisi yn y dyfodol ac yn parhau i gael ei datblygu fel rhan o waith ehangach ar ddiwygio a thrawsnewid gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod penderfyniadau yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a dealltwriaeth glir o gostau, manteision a goblygiadau o ran cyflawni.



Ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid

Gwnaethom hefyd gryfhau'r ffordd rydym yn mynd ati i ymgysylltu drwy greu llwybrau mwy cyson a gweladwy ar gyfer cyfathrebu â'r sector a'r cyhoedd. Sefydlwyd cylchlythyr rheolaidd gan y Swyddfa Genedlaethol i rannu diweddariadau, tynnu sylw at waith sy'n dod i'r amlwg a hyrwyddo arferion da, gan gefnogi deialog barhaus â rhanddeiliaid ledled Cymru. Er ei fod yn ei ddyddiau cynnar, llwyddodd y rhifyn cyntaf i gyrraedd tua 300 o ddarlennwyr ar draws y sector gofal cymdeithasol. Gwnaethom hefyd ddwyn ynghyd arweinwyr ac ymarferwyr drwy fforymau arweinyddiaeth ac arferion da cenedlaethol. Gwnaeth ein presenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol mawr, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol, helpu i godi proffil y Swyddfa Genedlaethol a chreu cyfleoedd gwerthfawr i ymgysylltu'n uniongyrchol ag ystod eang o gynulleidfaoedd. Estynnwyd y gweithgarwch ymgysylltu ehangach hwn i Gomisiwn Gofal Cymdeithasol i Oedolion y Farwnes Casey hefyd, gan helpu i sicrhau bod profiad a safbwyntiau pobl o Gymru yn cael eu hadlewyrchu mewn trafodaethau ehangach am ddiwygio gofal cymdeithasol.

Roedd gweithgarwch ymgysylltu â'r Comisiwn yn cynnwys ymweliadau â Gogledd Cymru tua diwedd mis Mawrth, gan roi cipolwg uniongyrchol i dîm y Comisiwn ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru. Roedd yr ymweliadau hyn yn gyfle i arddangos y ffordd yr ymdrinnir â gofal a chymorth yng Nghymru, gan gynnwys modelau cymunedol, gweithio mewn partneriaeth ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol, ac ymarfer y gweithlu o ddydd i ddydd. Roeddent hefyd yn galluogi'r Comisiwn i weld yn uniongyrchol sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu'n lleol a sut y caiff polisi cenedlaethol ei droi i ymarfer ar lawr gwlad. Roedd adborth gan dîm y Comisiwn yn adlewyrchu ymrwymiad a phroffesiynoldeb gweithlu gofal cymdeithasol Cymru, yn ogystal â chryfder modelau cyflawni lleol a dulliau cydweithredol. Mae gwaith ymgysylltu pellach wedi'i gynllunio i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r ymweliadau â Gogledd Cymru a chynnal deialog barhaus â'r Comisiwn wrth i'w waith fynd rhagddo.

Cynhaliwyd pedwar Fforwm Ymarfer Da Gofal Cymdeithasol. Roedd rhwng 30 a 40 o arweinwyr y sector a rheolwyr cyflawni o dimau gofal cymdeithasol

awdurdodau lleol ledled Cymru yn bresennol ym mhob digwyddiad.

Roedd y fforymau yn gyfle i rannu gwersi a ddysgwyd ac arddangos arferion da mewn meysydd allweddol, gan gynnwys model yr Academi Gofal, cymorth gyda datgywasgu a thrawma, arloesedd digidol wrth ddarparu gwasanaethau, a rhoi'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth ar waith. Un o ganlyniadau arwyddocaol y gwaith hwn fu'r momentwm cynyddol y tu ôl i ddull gweithredu'r Academi Gofal, sydd wedi llywio'r ymrwymiad i ddatblygu Academi Gofal Cymdeithasol Genedlaethol i Gymru i gefnogi gweithlu gofal cymdeithasol y dyfodol ledled Cymru.

Ochr yn ochr â'r gwaith arwain, ymgysylltu a thrawsnewid hwn, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi parhau i ganolbwyntio ar y newidiadau ymarferol sydd eu hangen i wella ansawdd, cryfhau'r gweithlu a chefnogi darpariaeth gyson ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fforwm Ymarfer Da Gofal Cymdeithasol

Mae'r Fforwm Ymarfer Da Gofal Cymdeithasol, a gynhelir gan y Swyddfa Genedlaethol, wedi rhoi cyfle gwych i arddangos prosiectau arloesol sy'n gwella'r ffordd y darperir gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Roedd y cyfle i gael trafodaethau manwl ar ddatblygiadau technolegol yn arbennig o werthfawr, ynghyd â chyfarfodydd dilynol gyda'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a chydweithwyr o bob rhan o'r sector.

Matthew Davies, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Gweithio gyda'r Trydydd Sector

Roedd yn bleser gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) groesawu'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth i Gofod3, sef y gynhadledd genedlaethol ar gyfer y trydydd sector, i gynnal gweithdy i drafod y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth.

Roeddem hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i hwyluso trafodaeth ag Albert Heaney am dyfodol Gofal Cymdeithasol yng Nghymru gyda phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Joanna Davies, CGGC (aelod o'r Grŵp Cyngori Strategol).

Ansawdd, y Gweithlu a Gwelliant

Y flwyddyn hon, rydym wedi parhau i gryfhau ansawdd, cysondeb a gwydnwch gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar wella ymarfer, cefnogi'r gweithlu, cryfhau diogelu ac eiriolaeth, a datblygu'r dystiolaeth a'r wybodaeth weithredol sydd eu hangen i ysgogi gwelliant ar draws y sector.

Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i gefnogi'r broses o roi'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth ar waith drwy raglen eang o gymorth ymarferol i gomisiynwyr ledled Cymru.

Comisiynu gwasanaethau yw'r broses o ddeall pa gymorth sydd ei angen ar bobl, penderfynu pa wasanaethau ddylai fod ar gael, dewis pwy sy'n eu darparu, a sicrhau eu bod o ansawdd da. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd cenedlaethol rheolaidd gyda chomisiynwyr lleol, tair cynhadledd gomisiynu fach, cymunedau ymarfer ar-lein sy'n datblygu ac adnodd cymorth ar gyfer gweithredu sydd â swyddogaethau meincnodi a hunanasesu.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain wedi helpu i gryfhau hyder, cysondeb a dysgu ar y cyd ar draws y system gomisiynu. Gwnaethom hefyd ariannu carfan bellach o 10 comisiynydd i ennill cymhwyster mewn comisiynu ar gyfer llesiant, gan ddod â chyfanswm y nifer a gefnogir i 48.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi parhau i gasglu tystiolaeth o ffioedd gofal a delir ledled Cymru i archwilio sut y gellir adlewyrchu gwerth gofal a chymorth yn gliriach mewn prosesau caffael a rheoli contractau, gan gynnwys canlyniadau a gwerth cymdeithasol cynhenid.

Mae cysylltiad agos rhwng y ffocws hwn ar gomisiynu a'r angen am weithlu hyderus a chynaliadwy. Felly rydym wedi parhau i flaenoriaethu gwaith teg, sefydlogrwydd y gweithlu a datblygiad gyrfaedd gofal cymdeithasol yn y tymor hwy ledled Cymru.

Comisiynu

Mae Tystysgrif Lefel 5 mewn Egwyddorion Comisiynu ar gyfer Llesiant yn paratoi gweithwyr proffesiynol i gomisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Roeddwn am ddiolch i'r gangen Comisiynu Cenedlaethol yn y Swyddfa Genedlaethol am y cymorth hwn. O'n cyfarfod cyntaf, hyd at gynnig lleoliad a chymorth yn ystod fy nghymhwyster lefel 5, rydych chi wedi bod yn hynod o gymwynasgar, cefnogol ac addysgiadol.

Richard, Comisiynydd Awdurdod Lleol.

Comisiynu

Mae Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ymwneud â chynnwys cymunedau yn y ffordd y mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu cynllunio a'u darparu.

Mae Fforwm Comisiynu'r Swyddfa Genedlaethol wedi ein helpu i brofi ein dealltwriaeth o'r egwyddorion a'r safonau yn y Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol, gan ein galluogi i roi cyfle ystyrlon i ddarparwyr lywio ein cynlluniau hunanasesu a gwella. Hefyd, gwnaeth adborth o gynhadledd gomisiynu'r Swyddfa Genedlaethol dynnu sylw at ein dull cydweithredol, ein tryloywder, a'n hymrwymiad i gefnogi darparwyr drwy brosesau datblygu'r farchnad, monitro a phennu ffioedd.

Lance Carver, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bro Morgannwg.

Y Gweithlu

Gwnaethom gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU er mwyn helpu i lywio darpariaethau'r Cytundeb Cyflog Teg o fewn Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025 fel eu bod yn adlewyrchu anghenion gofal cymdeithasol yng Nghymru. Un cyflawniad arwyddocaol oedd sicrhau bod gwasanaethau plant yn cael eu cynnwys drwy'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a basiwyd yn ystod haf 2025.

Ochr yn ochr â hyn, mae ein Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wedi dod ag undebau llafur, cynrychiolwyr cyflogwyr, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru ynghyd mewn partneriaeth gymdeithasol i wella telerau ac amodau ar draws y sector. Un o'i gyflawniadau allweddol eleni oedd cwblhau a chyhoeddi'r Fframwaith Tâl a Dilyniant gwirfoddol. Mae'r fframwaith yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer cyflog, telerau a llwybrau gyrfa mwy cyson, a bydd yn parhau i gael ei adolygu wrth i dystiolaeth bellach ar lefelau cyflog sectorau gael ei darparu. Gan weithio'n agos gyda'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, gwnaethom hefyd ddatblygu ymgynghoriad cyhoeddus ar sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol. Byddai hyn yn creu mecanwaith ffurfiol ar gyfer cytuno ar Gytundebau Cyflog Teg ac, am y tro cyntaf, yn galluogi lefelau

cyflog gorfodadwy ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ategu gan gamau gweithredu ehangach drwy Bartneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol i gryfhau arferion cyflogaeth ar draws y sector, yn enwedig yn y sector annibynnol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r bartneriaeth wedi canolbwyntio ar ddatblygu polisïau Adnoddau Dynol enghreifftiol i gefnogi gwell cysondeb. Cyhoeddwyd y ddau bolisi cyntaf, Cytundebau Cydnabyddiaeth a Disgyblu a Chwynion Cyflogaeth, ym mis Chwefror 2026.

Creodd newidiadau i bolisi mewnfudo'r DU ansicrwydd i weithwyr gofal tramor yng Nghymru. Mewn ymateb, gwnaethom sefydlu rôl i'r Gwasanaeth Cynghori Cenedlaethol gefnogi gweithwyr sydd eisoes yng Nghymru a oedd wedi cael eu dadleoli neu a oedd yn chwilio am gyflogaeth arall. Ers ei gyflwyno a hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026, mae bron 400 o weithwyr wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Cynghori Cenedlaethol ac mae wedi rhoi cyngor a chymorth uniongyrchol i bawb sydd wedi cysylltu â'r gwasanaeth, gan gynnwys tua 150 o weithwyr sydd wedi'u cofrestru ag ef ar hyn o bryd, gan sefydlu ei hun fel pwynt cyswllt cyntaf dibynadwy mewn cyfnod bregus ac ansicr.

Bu'r adborth gan bartneriaid yn gadarnhaol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cael gwasanaeth pwrpasol a hygyrch i gefnogi gweithwyr sy'n ymdrin â newidiadau i'w hamgylchiadau cyflogaeth a mewnfudo.

Drwy gysylltu gweithwyr â darparwyr gofal sydd â thrwyddedau noddi a chyfeirio at gymorth ehangach, mae'r gwaith hwn yn helpu gweithwyr medrus i aros yn y sector gan gefnogi darparwyr i lenwi swyddi gwag ar yr un pryd.

Gwnaethom hefyd gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i ddeall dulliau arloesol o recriwtio a chadw staff, gan gynnwys academiâu gofal lleol.

Mae'r modelau hyn wedi dangos cyfraddau cadw cryf, wedi gwella canfyddiadau o ofal cymdeithasol ac wedi creu cyfleoedd cliriach i ddatblygu. Gan adeiladu ar y dysgu hwn, cyhoeddwyd £1.5 miliwn ym mis Chwefror 2026 i gefnogi cam cyntaf Academi Gofal Cymdeithasol Genedlaethol i Gymru. Gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac awdurdodau lleol, bydd hyn yn helpu i ymestyn manteision arloesedd lleol ledled Cymru ac yn cefnogi ein huchelgais am fodel academi a gydnabyddir yn genedlaethol ac a ddarperir yn lleol.

Y Gweithlu

Yr hyn sy'n gwneud y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol mor effeithiol yw'r ymrwymiad gan bartneriaid cymdeithasol i gydweithio er budd y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae cyfranogiad cyflogwyr, undebau llafur, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau yn cael eu clywed. Er mai fy rôl i fel Cadeirydd Annibynnol yw darparu arweinyddiaeth ddiduedd, mae ymdeimlad cryf bod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi barn y Fforwm, yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, ac yn manteisio ar arbenigedd y Fforwm wrth ddatblygu polisïau a fydd yn gwella telerau ac amodau i weithwyr gofal ledled Cymru.

Rachel Ashworth, Cadeirydd Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol.

Diogelu

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn i gryfhau'r gweithlu, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi parhau i ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol ar ddiogelu, eiriolaeth a chwynion, gan gydweithio'n agos â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Rydym wedi parhau i arwain y gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn, sydd bellach yn ei drydedd flwyddyn.

Rydym wedi lansio Strategaeth Genedlaethol ddeng mlynedd gyntaf y DU ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru 2026 i 2036 a'i chynllun cyflawni cyntaf (2026 i 2029).

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn nodi dull hirdymor, system gyfan o atal, amddiffyn a chefnogi, yn seiliedig ar bedwar amcan clir:

- **Atal cam-drin plant yn rhywiol.**
- **Amddiffyn plant ac ymateb iddynt yn effeithiol pan fo pryderon am gam-drin plant yn rhywiol.**
- **Cefnogi plant, rhieni neu ofalwyr nad ydynt yn cam-drin, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu pan fydd achos o gam-drin wedi digwydd.**
- **Cefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.**

Ochr yn ochr â'r gwaith strategol hwn, rydym hefyd wedi cyfrannu at Ymchwiliad Cymru a Lloegr i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar sail Grŵp ac wedi rhoi camau gweithredu ar waith sy'n deillio o ymchwiliadau cenedlaethol eraill, gan gynnwys yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ac adolygiadau diogelu proffil uchel eraill.

Rydym wedi parhau i oruchwyllo'r cynnig eiriolaeth statudol cenedlaethol i blant a phobl ifanc sy'n ymwneud â gwasanaethau plant, ac mae gwaith wedi parhau i wella ymwybyddiaeth o hawliau eiriolaeth.

Diogelu

Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn cefnogi yn wresog ymrwymiad uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i ddull system gyfan o atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Mae sicrhau ymgysylltiad ystyrlon â phartneriaid a'r rhai sydd â phrofiad bywyd yn allweddol i lwyddiant y strategaeth.

Mae'r Ganolfan yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol fel Byrddau Diogelu Rhanbarthol i gyflawni'r Strategaeth.

Matt Rogers – Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfathrebu, Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Diogelu

Mae NSPCC Cymru yn croesawu strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru i atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Rydym yn falch o fod wedi gweithio gyda'r Swyddfa Genedlaethol er mwyn helpu i nodi bylchau presennol mewn polisi ac ymarfer ac rydym yn cefnogi dull gweithredu'r strategaeth sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd ac sy'n rhoi'r cyfrifoldeb am fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ar bawb.

Cecile Gwilym – Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC Cymru.

Dadansoddi ac Arloesi



Mae ein gwaith ar ddadansoddi ac arloesi wedi parhau i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gan adeiladu ar bartneriaeth barhaus ag awdurdodau lleol, mae ansawdd data gofal cymdeithasol wedi gwella, gan arwain at allu cyhoeddi data ar Gapasiti a Galw Gwasanaethau Cymdeithasol o fis Mawrth 2026. Mae hyn yn gam pwysig ymlaen wrth ddatblygu darlun cenedlaethol cliriach o bwysau a chapasiti, a bydd ein ffocws nawr yn troi at wneud defnydd gwell o'r data hyn i gefnogi'r gwaith o gyflawni, gwella a rhannu gwybodaeth ar draws y sector.

Mae'r sylfaen dystiolaeth gryfach hon hefyd yn cefnogi gwelliant o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty a llif cleifion, lle mae ein gwaith wedi parhau i ganolbwyntio ar ansawdd data, cysondeb a gwella systemau. Drwy gydol y flwyddyn, bu'r tîm yn rheoli'r set ddata genedlaethol fisol, gan ddarparu darlun cyson o oedi wrth ryddhau cleifion a phwysau ar y system ehangach ledled Cymru. Drwy gynnal systemau adrodd, cefnogi cyflwyniadau cyson gan fyrddau iechyd a gwella ansawdd a chyflawnrwydd data, mae'r tîm wedi cryfhau hyder yn y set ddata fel ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth ar gyfer penderfyniadau gweithredol a pholisi.

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y gwaith ar gryfhau'r sylfaen dystiolaeth a chefnogi gwelliant ar draws y system, gan gynnwys cyhoeddi Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi mwy teg.

Llwybrau Gofal

Roedd Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal gwerth £30 miliwn yn ysgogiad allweddol ar gyfer newid y tu hwnt i leoliad yr ysbyty. Goruchwyliodd y tîm y grant a chefnogodd awdurdodau lleol i ehangu capasiti gofal cymunedol a chymdeithasol er mwyn gwella llif cleifion. Cafodd darpariaeth ac effaith eu monitro i sicrhau bod cyllid yn cefnogi gwelliannau mesuradwy o ran rhyddhau a chanlyniadau.

Mae'r tîm wedi parhau i oruchwylio'r Canllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty ac wedi ymgymryd â gwaith i ddatblygu canllawiau rhyddhau ar gyfer llwybrau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n parhau i fod yn ymarferol, yn gyfredol ac yn addas at y diben. Mae'r canllawiau hefyd wedi cael eu cryfhau i gefnogi cleifion, teuluoedd a gofalwyr yn well, gan gynnwys prosesau cyfeirio cliriach a gwybodaeth fwy hygrych am y broses ryddhau, gan helpu i gefnogi trefniadau rhyddhau mwy diogel a chyson a lleihau oedi diangen.

Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed y flwyddyn hon, bydd y Swyddfa Genedlaethol nawr yn canolbwyntio ar gynnal momentwm, cryfhau darpariaeth a bwrw ymlaen â'r cam trawsnewid nesaf yn 2026-27.

Edrych Ymlaen

Mae'r cyflawniadau, y dystiolaeth, y partneriaethau a'r dysgu a ddeilliodd o'r gwaith hwn yn darparu sylfaen gadarn a phwysig ar gyfer datblygiad parhaus gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.

